

Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded amgylcheddol:

Rhan B7 - Trwydded dŵr daear benodol newydd i gollwng trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd, plaleiddiaid gwastraff neu sylweddau gwastraff eraill

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflenni. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gwblhau rhan B7 o'r pecyn ffurflen gais.

Pan fyddwch yn gweld y term 'cyfeirnod y ddogfen' ar y ffurflen, nodwch gyfeirnodau'r dogfennau ac anfonwch y dogfennau gyda'r ffurflen gais pan fyddwch wedi'i chwblhau. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau nad oes eu hangen, nodwch na chânt eu hasesu.

Sut i gysylltu â ni: Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r person a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni drwy:

Ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm).

E-bost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

Ble i anfon eich cais: Gallwch anfon eich cais drwy e-bost neu yn y post. Gallwn brosesu ceisiadau yn gyflymach os byddwn yn eu derbyn drwy e-bost (yn electronig). Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:

E-bost: canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Post: Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Cynnwys

Cyflwyniad

1 Ardal gollwng

2 Amgylchedd lleol

Atodiad 1 – Cwestiynau penodol ar gyfer gollwng trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd

Atodiad 2 a 3 – Cwestiynau penodol ar gyfer gollwng golchion plaleiddiaid gwastraff neu sylweddau gwastraff eraill

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i chi gwblhau copi ar wahân o'r **ffurflen** hon a'r atodiad priodol ar gyfer pob sylwedd rydych yn bwriadu ei ollwng fel rhan o'ch cais i amrywio eich trwydded.

Mae'r canllawiau canlynol yn berthnasol i chi os ydych yn ystyried gwneud cais i ollwng sylweddau peryglus neu lygryddion nad ydynt yn beryglus i'r ddaear.

Sylweddau peryglus yw'r sylweddau mwyaf niweidiol ac mae'n rhaid eu hatal rhag treiddio i ddŵr daear. Mae hyn yn cynnwys unrhyw sylwedd neu grŵp o sylweddau sy'n wenwynig, yn barhaus ac yn debygol o fiogronni. Yn arbennig:

- cyfansoddion a sylweddau organohalogen a all ffurfio cyfansoddion o'r fath yn yr amgylchedd dyfrol;
- cyfansoddion organoffosfforws;
- cyfansoddion organotin;
- sylweddau a chymysgeddau (neu sgil-gynhyrchion cysylltiedig) y profwyd bod ganddynt nodweddion carcinogenig neu fwtagenig neu nodweddion a allai effeithio ar swyddogaethau steroidogenig, thyroid, atgynhyrchu neu swyddogaethau eraill sy'n gysylltiedig ag endocrin yn yr amgylchedd dyfrol neu drwy'r amgylchedd dyfrol;
- metelau a'u cyfansoddion (yn enwedig mercwri a chadmiwm);
- hydrocarbonau parhaus a sylweddau gwenwynig organig parhaus a biogronnol;
- syanidau;
- arsenig a'i gyfansoddion;
- bywleiddiaid a chynhyrchion diogelu planhigion.

Nid yw llygryddion nad ydynt yn beryglus mor niweidiol ond gallant achosi llygredd os byddant yn cael eu cyflwyno neu eu gollwng i ddŵr daear mewn ffordd nad yw'n rheoledig. Mae llygryddion nad ydynt yn beryglus yn cyfeirio at unrhyw lygrydd ac eithrio sylwedd peryglus.

Dylai'r canllawiau canlynol eich helpu i gwblhau rhan C7 o'ch cais. Mae'r rhifau yn cyfeirio at y cwestiynau fel y cânt eu gofyn ar y ffurflen hon. Os na fydd y ffurflen a anfonir gennych yn gyflawn, mae'n bosibl y bydd oedi wrth wneud penderfyniad ar eich cais neu, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y byddwn yn ei gwrthod. Dylech sicrhau na fydd unrhyw ardal a ddefnyddir gennych ar gyfer gweithgareddau gollwng yn effeithio ar ddŵr daear, dŵr wyneb nac ardaloedd cadwraeth.


1 Ardal gollwng

1a Dylai'r cynllun ddangos y canlynol:

- ffiniau'r ardal gollwng;
- ffiniau perchenogaeth neu denantiaeth - rhag ofn y bydd angen i ni awgrymu ardal gollwng arall;
- nodweddion dŵr a thir - mae nodweddion dŵr yn cynnwys ffynhonnau; ffrydiau; dyfrdyllau; tryddiferiadau a nodweddion hydoddi, megis llyncdyllau; llynnoedd; pyllau; afonydd, nentydd a ffosydd mewn caeau a all fod yn sych am ran o'r flwyddyn.

Ar gyfer y cynllun o'r ardal, gallech ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans ar raddfeydd o 1:1 250 i 1:2 500 neu gopi o fap System Gweinyddu a Rheoli Integredig (IACS). Byddwn yn defnyddio'r cynllun fel sail ar gyfer trwydded, felly rhaid iddo fod mor glir â phosibl.

Defnyddiwch y marciau a awgrymir isod. Bydd hyn yn sicrhau bod nodweddion y safle yn gliriach ac yn helpu i wneud ein hasesiad.



Gallwch ddod o hyd i fapiau Arolwg Ordnans mewn siopau llyfrau a llyfrgelloedd. Er mwyn canfod cyfeirnod grid eich ardal gollwng i'r cilometr sgwâr agosaf, dilynwch y camau canlynol:

- 1b**
- Darllenwch y ddwy lythyren sy'n nodi'r sgwâr 100,000 metr (dangosir hyn ar glawr blaen y mapiau ar raddfa 1:25 000, a chaiff ei farcio mewn llythrennau glas yng nghorneli'r mapiau ar raddfa 1:50 000). Er enghraifft, ST _____
 - Dewch o hyd i'r llinell grid fertigol cyntaf i'r chwith o'ch ardal gollwng, a darllenwch y rhifau sy'n labelu'r llinell naill ai ar frig neu ar waelod y map. Er enghraifft, ST 12 _____
 - Cyfrwch ar hyd nifer yr is-adrannau o'r pwynt hwn hyd at ganol eich ardal gollwng. Er enghraifft, ST 123 _____
 - Ceisiwch wneud hyn unwaith eto os bydd canol eich ardal gollwng o fewn yr is-adran hon. Er enghraifft, ST 1235 _____
 - Dewch o hyd i'r llinell grid llorweddol cyntaf islaw eich ardal gollwng, a darllenwch y rhifau sy'n labelu'r llinell naill ai ar ochr chwith neu ochr dde'r map. Er enghraifft, ST 1235 34 _____

- Ailadroddwch y camau uchod er mwyn cael cyfeirnod grid wyth digid. Er enghraifft, ST 1235 3425.

1c Mae'n bosibl y gallwch ddod o hyd i rif y cae ar fap IACS neu ar fap Landlines yr Arolwg Ordnans.

1d Bydd ardaloedd gollwng yn addas os nad oes perygl y byddant yn llygru dŵr daear neu ddŵr wyneb. Dylent:

- gynnwys llystyfiant llawn dwf;
- bod o werth isel i fywyd gwyllt;
- bod ag uwchbridd o ddyfnder da (er enghraifft, dyfnder o fwy nag 20 centimetr);
- bod o leiaf 10 metr oddi wrth nentydd neu ffosydd;
- bod o leiaf 50 metr i lawr o ffrydiau, ffynhonnau neu ddyfrdyllau ni waeth beth yw'r defnydd cyfredol a wneir ohonynt.

Nid yw systemau ymdreiddio (ffosydd cerrig) yn ardaloedd gollwng addas.

2 Amgylchedd lleol

2b Mae'n bwysig canfod p'un a oes cyflenwadau dŵr eraill o fewn 500 metr i'ch ardal gollwng; er enghraifft, ffynonellau a ddefnyddir gan eich cymdogion. Dylid sicrhau bod y rhain wedi'u nodi ar eich cynllun.

2c Mae hefyd yn bwysig nodi'r holl nodweddion dŵr sydd o fewn 500 metr i'ch ardal gollwng. Dangoswch bob ffynnon, ffrwd, dyfrdwl, nant, ffos, pwll a gwlyptir, hyd yn oed os na chânt eu defnyddio at ddibenion yfed.

2e Fel canllaw, mae 20 centimetr yn wyth modfedd, mae 30 centimetr yn un droedfedd.

2g Mae cynnwys mater organig uchel fel arfer yn gysylltiedig â'r canlynol:

- priddoedd mawnaidd;
- pridd o liw tywyllach ac ansawdd llyfnach;
- priddoedd tywodlyd sy'n cydgrynhoi'n well; a thyweirch gwannach a thrwch mân mewn cleiau.

2h Mae angen i ni wybod am systemau draenio'r cae neu ardal yr iard er mwyn sicrhau nad oes perygl y bydd y gweithgareddau gollwng yn llygru dŵr daear neu ddŵr wyneb. Rhaid i chi hefyd ddisgrifio eich trefniadau draenio os ydych yn defnyddio ardal iard ar gyfer gweithgareddau megis golchi cyfarpar chwistrellu neu ddefnyddio cyfarpar trwytho neu gawod symudol.

2i Er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch eich trwydded, mae angen i ni nodi'r dyfnder hyd at y dŵr daear islaw eich safle gollwng ac mae'n bosibl y byddwch yn gallu rhoi gwybodaeth i ni am y safle. Er enghraifft, a oes unrhyw ffynhonnau segur gerllaw y gallwch eu defnyddio'n ddiogel i amcangyfrif y dyfnder at y dŵr llonydd neu a oes gennych gofnodion drilio ar gyfer unrhyw ddyfrdyllau a adeiladwyd gerllaw? Hefyd, mae'n bosibl y byddwch wedi ymgymryd â gwaith cloddio ger y safle a allai fod wedi cyrraedd y lefel trwythiad neu byddwch o leiaf yn gallu cadarnhau eich bod wedi cyrraedd dyfnder penodol heb gyrraedd y lefel honno.

Os ydych ar safle ar gopa bryn, mae'n bosibl y byddwch yn gwybod eich uchder uwchlaw llinell unrhyw ffrwd weladwy. I'r gwrthwyneb, a ydych wrth droed bryn ac a oes ardaloedd o dir gerllaw sy'n gorsiog ac nad ydynt yn aml yn sychu?

2m Mae angen i ni wybod pa fath o llystyfiant sy'n debygol o fod yn tyfu yn yr ardal ar yr adeg y byddwch yn gollwng. Y rheswm am hyn yw y gall llystyfiant effeithio ar y graddau y caiff y sylweddau a ollyngir eu hamsugno a'u dadelfennu.

Atodiad 1 – Cwestiynau penodol ar gyfer gollwng trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd

1 Gwaharddwyd cynhyrchion trochdrwyth defaid a oedd yn cynnwys cypermethrin gan Defra ym mis Chwefror 2006. Ar hyn o bryd, nid yw'r Llywodraeth yn fodlon y gellir defnyddio cynhyrchion trochdrwyth defaid sy'n cynnwys cypermethrin heb beri risg sylweddol i'r amgylchedd. Ar adeg gwahardd y tri chynnyrch trochdrwyth defaid a oedd yn cynnwys cypermethrin (Auripak Fly and Scab, Ecofleece a Robust), nid oedd angen adalw cynhyrchion a gyflenwyd cyn dyddiad y gwaharddiad.

Felly mae'n gyfreithiol o hyd i ddefnyddio'r stociau hynny a oedd yn bodoli eisoes. Fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu defnyddio unrhyw stociau o'r fath, cofiwch eu bod yn wenwynig iawn i fywyd dyfrol. Felly rhaid defnyddio'r trochdrwyth a'i waredu yn ofalus iawn a chan gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ar y label.

Hefyd, bydd angen trwydded arnoch hyd yn oed os mai dim ond trochdrwyth pyrl neu flwm y byddwch yn ei ollwng.

3 Os ydych yn gwasgaru trochdrwyth defaid sy'n cynnwys diazinon a fu'n destun proses gymeradwy o drin ag ensymau gan ddefnyddio Landguard OP, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i wneud cais am drwydded safonol. Dim ond os byddwch yn cydymffurfio â rhai rheolau safonol penodol (amodau) y byddwch yn gymwys. Os na allwch gydymffurfio ag unrhyw rai o'r rheolau safonol, rhaid i chi wneud cais am drwydded benodol. Gweler ein gwefan am ragor o wybodaeth.

4 Ystyr wedi'i 'wanhau' yw pan gaiff y trochdrwyth ar gryfder gweithredol ei wanhau er mwyn ei gwneud hi'n haws ei waredu ac er mwyn helpu i gyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd. Nid yw'n golygu gwanhau'r crynodiad i gryfder gweithredol.

5 Ni ddylid gwasgaru trochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd ar gryfder gweithredol ar gyfraddau o fwy na 5m³/ha. Er bod gennych, efallai, ddull dibynadwy o wasgaru ar y gyfradd hon, mewn sawl achos, defnyddir tancer gwactod, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt gyfradd cymhwyso sefydlog o tua 20m³/ha. Mae hyn bedair gwaith yn uwch na'r gyfradd gwasgaru a ystyrir yn gyfradd ddiogel. Felly, rhaid gwanhau'r trochdrwyth gan ddefnyddio o leiaf dair rhan o slyri neu ddŵr er mwyn cydymffurfio â'r gyfradd gollwng a argymhellir. Fel canllaw, 220 o alwyni = un metr ciwbig, un metr ciwbig = 1000 o litrau.

Atodiad 2 a 3 – Cwestiynau penodol ar gyfer gollwng golchion pleleiddiaid gwastraff a sylweddau gwastraff eraill

Nid oes angen trwydded arnoch os ydych yn gollwng golchion pleleiddiaid wedi'u gwanhau ar y cnwd targed yn unol ag argymhellion y gweithgynhyrchedd neu label y cynnyrch. Fodd bynnag, mae angen trwydded arnoch os ydych yn golchi cyfarpar chwistrellu ac yn ei ollwng mewn lleoliad arall (er enghraifft, ar gyrion y cae neu ar ardal o dir aberthol). Os nad ydych yn siwr p'un a oes angen trwydded arnoch ai peidio, cysylltwch â ni.

4 Gall 'trin' olygu ychwanegu ychwanegyn trin cymeradwy neu ddefnyddio gwaith trin, er enghraifft.

5 Ystyr wedi'i 'wanhau' yw pan gaiff y pleleiddiad neu gynnyrch gwastraff arall ar gryfder gweithredol ei wanhau er mwyn ei gwneud hi'n haws ei waredu ac er mwyn helpu i gyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd. Nid yw'n golygu gwanhau'r crynodiad i gryfder gweithredol.

6 Os ydych yn golchi eich cyfarpar, amcangyfrifwch faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio. Fel canllaw, 220 o alwyni = un metr ciwbig; un metr ciwbig = 1000 o litrau.

8 Er mwyn sicrhau na fydd y broses o ollwng pleleiddiaid gwastraff neu gynhyrchion gwastraff eraill ar y tir yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, mae angen i ni wybod yn fras pa mor aml yr ydych yn gwaredu'r pleleiddiad, faint rydych yn ei ollwng a ph'un a ydych yn ei wanhau. Dylid gadael cyfnod o dri diwrnod o leiaf rhwng pob gollyngiad ar un ardal benodol o dir.